AMGUEDDFA CYMRU

Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:<br>Title of Meeting:** | **Amgueddfa Cymru – Cyfarfod Agored Bwrdd yr Ymddiriedolwyr** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:<br>Date of Meeting:** | **Dydd Iau, 21 Mawrth 2024, 9.30am – 1.15pm** |
| **Lleoliad:<br>Venue:** | **Ystafell Bwyllgora Sain Ffagan** |
| **Aelodau'r Bwrdd yn Bresennol:** | Kate Eden (Cadeirydd)<br>Rhys Evans (Is-gadeirydd)<br>Hywel John (Trysorydd)<br>Jan Williams<br>John Hunt<br>Richard Thomas<br>Cai Wilshaw<br>Freya Stannard<br>Llion Iwan<br>Daniel Richards<br>Emma Yhnell<br>David Jones |
| **Aelodau'r Tîm Gweithredol yn Bresennol:** | Jane Richardson, Prif Weithredwr<br>Peter Holt, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau<br>Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth<br>Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Dysgu ac Ymgysylltu<br>Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido<br>Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil |
| **Mynychwyr Ychwanegol yn Bresennol:** | Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol<br>Rhodri Davies, Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu<br>Catrin Roberts, Pennaeth Cysylltiadau Allanol a Chyllido<br>Ioan Davies (Cyfieithydd)<br>Sian Jones (Cyfieithydd Zoom) |
| **Datganiadau o Fuddiant:** | Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau |
| **Ymddiheuriadau:** | Abigail Lawrence, Ymddiriedolwr<br>Owen Hathway, Ymddiriedolwr<br>Ameerah Mai, Ymddiriedolwr<br>Ian Williams, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Mark Petherick, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol |

**Eitem 1. Cyfarfod Agored**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a rhoi croeso cynnes i'r ymddiriedolwyr newydd, sef Llion Iwan, Jan Williams, David Jones, Emma Yhnell a Daniel Richards, i'w cyfarfod Bwrdd cyntaf.

**Eitem 2. Diweddariad gan y Prif Weithredwr – Cyflwyniad**
Noddwr a Chyflwynydd: Jane Richardson, Prif Weithredwr

2. Rhoddodd y Prif Weithredwr fewnwelediad i'r ymddiriedolwyr am y broses ymgynghori a gynhaliwyd yn ddiweddar gyda'r staff. Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar y pwyntiau canlynol:

   - Adolygiad wedi'i deilwra
   - Strwythur staffio
   - Strategaeth a phwrpas
   - Ymrwymiadau'r Amgueddfa hyd at 2030
   - Sut rydym yn gweithio a beth fyddwn yn ei wneud, bod yn agored ac yn dryloyw
   - Gweithgarwch Masnachol / Caffis a Siopau / Casgliadau / Rhoddion / Digwyddiadau Masnachol a Chymunedol

3. Amlinellodd y Prif Weithredwr y blaenoriaethau ar gyfer 2027, a thynnodd sylw at sut olwg fyddai ar lwyddiant wrth symud ymlaen.

4. Byddai'r rhaglen yn cael ei monitro a'i gwerthuso gan gyfres o dargedau ac amcanion yn erbyn y gwahanol raglenni gwaith, gan gynnwys fframwaith asesu effaith.

5. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai cyfres o gynlluniau wedi'u costio yn cael eu dwyn o flaen y bwrdd maes o law.

6. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D diweddariad y Prif Weithredwr yn cael ei nodi.**

**Eitem 3. Diweddariad gan y Cadeirydd**
Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

7. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar gyfarfodydd a digwyddiadau allweddol a fynychwyd ers y cyfarfod diwethaf a thynnodd sylw at y canlynol:

   - Y Comisiwn Elusennau, Chwefror 2024: a llythyr a dderbyniwyd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad yn cadarnhau bod y Comisiwn Elusennau bellach wedi cau ei ymchwiliad i Amgueddfa Cymru yn ffurfiol, yn dilyn yr Adroddiadau am Ddigwyddiadau Difrifol a ffeiliwyd gan Amgueddfa Cymru yn 2023. Diolchodd yn ffurfiol i'r holl

ymddiriedolwyr a SET am eu cyfraniad i'r cyfarfod a'r penderfyniad y Comisiwn Elusennau. Nododd y Bwrdd ei fod yn ddiolchgar i'r Comisiwn Elusennau am gyfleu eu penderfyniad yn gyflym.

- Ymweliad Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth â Sain Ffagan, Mawrth 2024
- Cyfarfod chwe-misol gyda'r Dirprwy Weinidog, Mawrth 2024
- Lansio 'Celf yr Hun-lun' Van Gogh, Mawrth 2024

8. Yn ogystal, roedd y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd wedi cyfarfod â chymheiriaid ar draws y sector diwylliant a threftadaeth Gymreig yn y chwarter cyntaf hwn:

   - Cadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol Cadw ym mis Ionawr 2024, ac yna gyda Chadeirydd, Prif Swyddog Gweithredol presennol a Phrif Swyddog Gweithredol newydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ym mis Chwefror 2024.

9. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r ymddiriedolwr Abigail Lawrence yn cymryd 'absenoldeb' o chwe mis, o 8 Mawrth i 8 Medi 2024.

10. Byddai Abigail yn parhau i fod yn ymddiriedolwr llawn ac felly'n gyfrifol am unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Bwrdd ar y cyd yn ystod y cyfnod hwn, a byddai'n derbyn holl bapurau, agendâu a chofnodion y Bwrdd er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion ymddiriedolwyr ac yn codi cwestiynau/sylwadau lle bo'n briodol.

11. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D diweddariad y Cadeirydd yn cael ei nodi.**

**Eitem 4. Llunio Ein Dyfodol**
Noddwr a Chyflwynydd: Jane Richardson, Prif Weithredwr, a Peter Holt, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

12. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y rhaglen Llunio Ein Dyfodol wedi'i rhoi ar waith yn gynnar ym mis Ionawr 2024, ar ôl cyhoeddi cyllideb 2024/25 Llywodraeth Cymru ar 19 Rhagfyr 2023.

13. Prif sbardunau y rhaglen oedd pwrpas craidd yr amgueddfa, y Siarter Frenhinol a dogfennau sylfaenol eraill – yr her fydd darparu'r gwasanaethau hyn o fewn yr amlen ariannol sydd i ddod.

14. Roedd Amgueddfa Cymru yn derbyn £3 miliwn (10.5%) yn llai o gymorth grant gan Lywodraeth Cymru ac, at hynny, oherwydd y diffyg strwythurol o £1.5 miliwn a brofwyd gan yr amgueddfa, cynyddwyd y targed i arbed yn ystod y flwyddyn i £4.5 miliwn.

15. Sefydlwyd y rhaglen Llunio Ein Dyfodol o dan bum ffrwd gwaith fel a ganlyn:

- Incwm – codi tâl, masnachol a chodi arian
- Adnoddau Dynol a'r gweithlu – polisïau, trefniadau contractiol a strwythurau
- Rhaglen a gweithrediadau – safleoedd/ystad, trefniadau agor, gweithgareddau i ymwelwyr ac arbedion effeithlonrwydd
- Casgliadau – caffael, benthyca, ymchwil, storio, a chyfleoedd traws-gasglu
- Pwrpas – gwerthoedd, diwylliant, brand a blaenoriaethau strategol

16. Mae'r cynnydd a wneir drwy'r ffrwd waith yn cael ei gofnodi drwy Ddogfen Cychwyn Project ac fe adroddwyd arno yn wythnosol i Fwrdd y Rhaglen.

17. Gan fod y gostyngiad yn y cyllid yn dechrau ym mis Ebrill, bydd angen i'r amgueddfa gwblhau'r broses o ddylunio strwythur trefniadaeth tynnach newydd erbyn 31 Mawrth 2024. Mae'r llinellau amser mwyaf hanfodol yn ymwneud â'r cynlluniau diswyddo gwirfoddol a diswyddo gorfodol, lle mae'r cynlluniau diswyddo gwirfoddol a diswyddo gorfodol cydamserol yn cau ganol mis Mawrth 2024, er mwyn caniatáu ar gyfer prosesu cytundebau setlo cyn diwedd y flwyddyn.

18. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod 80 o gytundebau diswyddo gwirfoddol wedi'u llofnodi ar hyn o bryd a bod nifer yn dal i fod yn destun ymgynghoriad. Nododd y Bwrdd y nifer uchel o gytundebau diswyddo gwirfoddol, a oedd felly yn cyfyngu ar y gofyniad am diswyddo gorfodol.

19. Darparodd pob cyfarwyddwr drosolwg o'r ffrydiau gwaith ac arbedion cost a oedd yn digwydd yn eu cyfarwyddiaeth.

20. Dywedodd yr ymddiriedolwyr ei bod yn bwysig cydnabod pwysau ar gydweithwyr a oedd yn dal i barhau i ymgymryd â busnes fel arfer o dan amgylchiadau anodd iawn a gofynnwyd am adborth pellach ar y rhaglen o fewn chwe mis.

21. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr:**

**(1) B O D cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.**

**(2) B O D diweddariad pellach ar y rhaglen Llunio Ein Dyfodol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mehefin.**

**Eitem 5. Adroddiad Cyllid Diwedd Mis Ionawr**
Noddwr a Chyflwynydd: Peter Holt, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

22. Darparodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a'r Pennaeth Cyllid, ddiweddariad cyllid mis Ionawr.

23. Roedd y sefyllfa net ar ddiwedd Ionawr yn dangos gwariant net o £1.4 miliwn o gymharu â ffigwr a ragwelwyd o £1.7 miliwn. Gwnaed taliad anghyfunol o 5% i staff ym mis Ionawr ac roedd hyn yn unol â'r disgwyliadau a ragwelwyd.

24. Roedd adolygiad o'r gyllideb refeniw wedi'i gynnal, gan arwain at ragfynegiad o wariant net o £1.7 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol o gymharu â'r £0.5 miliwn a gyllidebwyd yn wreiddiol.

25. Roedd incwm adrannol ac incwm masnachol y flwyddyn hyd yma wedi codi £598.000 o gymharu â'r ffigyrau targed a ailragwelwyd.

26. Roedd gwariant craidd y flwyddyn hyd yma wedi codi £268.000 ar y targed a ailragwelwyd.

27. Roedd gwariant craidd net yn £1,430.000 ar 31 Ionawr o'i gymharu â £1,760.000 disgwyliedig.

28. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.**

**Eitem 6. Cymhwyso TAW ar gyfer Mynediad ac Arddangosfeydd Amgueddfeydd**
Noddwr a Chyflwynydd: Peter Holt, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, Yvonne Ruelle, Pennaeth Cyllid

29. Amlinellodd y Pennaeth Cyllid y byddai'r amgueddfa, fel corff cyhoeddus, yn debygol o gael ei hystyried fel bod yn esempt rhag talu TAW ar incwm o dan yr esemptiad gwasanaethau diwylliannol.

30. Gofynnwyd am gytundeb yr ymddiriedolwyr y byddai'r amgueddfa'n codi TAW ar gyfraddau safonol i brisiau tocynnau mynediad.

31. Dangosodd meincnodi gyda'r Amgueddfa Astudiaethau Natur yn Llundain eu bod yn codi TAW ar eu holl incwm o docynnau.

32. Roedd papur gan Deloitte wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad gyda goblygiadau TAW pe byddai'r amgueddfa yn codi tâl am fynediad i ddigwyddiad neu safle.

33. Cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau Dynol y byddai'n dosbarthu papur yn tynnu sylw at y buddion llif arian ar ôl cyfarfod y Bwrdd.

34. Gofynnodd y Cadeirydd a allai'r Pennaeth Cyllid gael gwiriad terfynol yn unol ag Archwilio Cymru i gadarnhau nad oedd unrhyw broblem gyda'r broses o gymhwyso'r tâl hwn fel elusen.

35. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D cymhwyso TAW at brisiau tocynnau ar gyfer Mynediad ac Arddangosfeydd Amgueddfa yn cael ei gymeradwyo.**

**Eitem 7. Ffioedd Ychwanegol Archwilio Cymru ar gyfer Adroddiad er Budd y Cyhoedd**
Noddwr a Chyflwynydd: Hywel John, Trysorydd

36. Yn ei gyfarfod ar 21 Chwefror 2024, cyflwynwyd y llythyr ffioedd ychwanegol gan Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Roedd y llythyr, sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad, yn amlygu'r amser a'r costau a neilltuwyd i wneud y gwaith ychwanegol sydd ei angen ar gyfer yr Adroddiad er Budd y Cyhoedd.

37. Yn y cyfarfod,

**PENDERFYNWYD gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg: B O D y ffioedd ychwanegol fel y'u hamlygwyd yn llythyr Archwilio Cymru i'r Bwrdd yn cael eu cymeradwyo.**

38. Ar ôl trafod yr eitem hon, roedd yr ymddiriedolwyr yn cytuno y dylid talu'r ffioedd ychwanegol.

39. Awgrymodd y Trysorydd y ceisir eglurhad pellach gan Archwilio Cymru ar y dadansoddiad o'r costau sy'n gysylltiedig â'r ffioedd ychwanegol. Cadarnhaodd y staff cyllid eu bod wedi gofyn am hyn ond bod Archwilio Cymru wedi cadarnhau nad oedd unrhyw wybodaeth bellach ar gael.

40. Ar ôl ystyried y mater a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwyswyd ynddo o ran Amgueddfa Cymru fel elusen gofrestredig a'i rhwymedigaethau fel y cyfryw, cytunodd yr ymddiriedolwyr y dylid gwneud y taliad i Archwilio Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

**(1) B O D talu Ffioedd Ychwanegol Archwilio Cymru ar gyfer Adroddiad er Budd y Cyhoedd yn cael ei gymeradwyo.**

**(2) B O D y Cadeirydd yn ysgrifennu llythyr at Archwilio Cymru yn awgrymu y gallai mwy o fanylder ar y dadansoddiad o gostau a ffioedd fod o fudd i unrhyw sefydliad mewn sefyllfa debyg yn y dyfodol, yn enwedig y rhai sy'n elusennau cofrestredig.**

**Eitem 8.1. Eitemau i'w Dad-dderbyn – Llyfrau Dyblyg**
Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

41. Dywedodd y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil wrth yr ymddiriedolwyr fod y Llyfrgell yn dymuno dad-dderbyn ac ailgartrefu 250 o lyfrau Celf, Hanes ac Archaeoleg dyblyg y nodwyd nad oedd eu hangen mwyach.

42. Roedd y rhesymeg dros y cam hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad A, sydd ynghlwm i'r adroddiad gyda gwybodaeth bellach, yn egluro'r broses ddethol a'r drefn ar gyfer ailgartrefu.

43. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai cyfarfod y Bwrdd mis Medi yn cael ei gynnal yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ac y byddai'n dda pe gallai'r ymddiriedolwyr gael taith o amgylch y Llyfrgell.

44. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D dad-dderbyn llyfrau dyblyg yn cael ei gymeradwyo.**

**Eitem 8.2: Eitemau i'w Dad-dderbyn – Eitemau Daearegol**
Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

45. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i ddad-dderbyn eitemau daearegol.

**<u>Darn craig unigol o sbesimen (rhannau a – h). Rhif derbyn AC 2008.2G.M.12 g</u>**

46. Casglwyd hwn o Fwynglawdd Benallt, Rhiw, Aberdaron, Gwynedd. Yn y graig hon, mae crisialau bach o'r mwyn piemontit-(Sr). Roedd y crisialau yn rhy fach i'w hechdynnu'n unigol, felly fe'i rhoddwyd ar fenthyg i'w ddadansoddi ymhellach. Mae'n enghraifft gaboledig wedi'i gosod mewn bloc resin crwn (25mm o ddiamedr).

**<u>Tri grisial unigol bach (<2mm) o'r mwyn ewaldit (Ba(Ca, Y, Na,K)(CO3)) wedi'u gwahanu oddi wrth y matrics, a'u pacio mewn tiwb plastig bach. Rhif derbynAC 2007.22G.M.20(benthyciad AC 1006)</u>**

47. Casglwyd o Chwarel Dol-y-hir, Pencraig, Llanandras, Powys. Rhoddwyd y benthyciad i alluogi Dr John Faithful i wneud gwaith sganio â microsgop electronau at ddibenion dadansoddi ar ran Tom Cotterell (Uwch-guradur Mwynoleg, Amgueddfa Cymru) a'i gydweithiwr, Roy Starkey (Mwnolegwr).

48. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D dad-dderbyn yr eitemau daearegol a amlinellwyd uchod yn cael ei gymeradwyo.**

**Eitem 9. Adroddiad Bwlch Cyflog Rhywedd**
Noddwr a Chyflwynydd: Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol

49. Rhoddodd y Pennaeth Adnoddau Dynol ddiweddariad i'r ymddiriedolwyr ar yr adroddiad cynnydd blynyddol ar y Bwlch Cyflog Rhywedd, sydd oedd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad.

50. Mae Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel y'u nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr preifat a gwirfoddol, pob cyflogwr awdurdod cyhoeddus arall, a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru gyhoeddi eu data erbyn 5 Ebrill bob blwyddyn.Cymerwyd y pwynt data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn ar 5 Ebrill 2023 i'w gyhoeddi y flwyddyn ganlynol.

51. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr:B OD yr adroddiad Bwlch Cyflog Rhywedd sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo ar gyfer cyhoeddi.**

**Eitem 10. Adroddiad Cydraddoldeb**
Noddwr a Chyflwynydd: Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol

52. Rhoddodd y Pennaeth Adnoddau Dynol ddiweddariad i'r ymddiriedolwyr ar yr adroddiad cynnydd blynyddol ar gydraddoldeb, sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad.

53. Fel corff rhestredig o dan Atodlen 19 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan Amgueddfa Cymru ddyletswyddau statudol o dan y ddyletswydd gyffredinol ynghyd â dyletswyddau penodol i Gymru. Roedd yn ofynnol o dan ddyletswyddau penodol i Gymru i'r amgueddfa gyhoeddi adroddiad cydraddoldeb blynyddol.

54. O dan ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol y sector cyhoeddus, rhaid i awdurdodau cyhoeddus wneud fel a ganlyn:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiadau eraill a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Trin yn gyfartal bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt
- Annog cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi.**

**Eitem 11. Cyflawni yn Erbyn Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltu a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**
Noddwr a Chyflwynydd: Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Dysgu ac Ymgysylltu

55. Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y modd y mae Amgueddfa Cymru wedi cyflawni yn erbyn Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.

56. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariad ar y nodau a'r camau gweithredu gofynnol a nodwyd yn y cynllun, o dan y penawdau a ganlyn:

- Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd
- Dathlu Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Y Naratif Hanesyddol
- Dysgu am ein Hamrywiaeth Ddiwylliannol

57. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Profiad, Dysgu ac Ymgysylltu fod y canlynol yn cael eu datblygu, gyda mwy o waith i'w wneud:

- Mae cynnwys ar-lein a chyfryngau cymdeithasol yn cael ei adolygu i wella amlygrwydd ac annog hygyrchedd – gan chwilio am a gweithio gyda grwpiau mwyafrif byd-eang ac unigolion i ddarganfod straeon heb eu hadrodd a dathlu llwyddiant.

58. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.**

**Eitem 12. Yr Adroddiad Diweddaru Chwarterol ar Ddatblygu Cynaliadwy**
Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth

59. Roedd y papur yn manylu ar weithgarwch yn ystod cyfnod adrodd Chwarter 4 2023/24.Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ar draws y meysydd canlynol:

**Datgarboneiddio a chynhyrchu adnewyddadwy**

60. Roedd cynnydd parhaus yn cael ei wneud o ran ceisio gwario'r grant datgarboneiddio o £750,000 yn effeithiol. Yr arwydd oedd y byddai'r grant yn cael ei hawlio'n sylweddol pe bai modd cwblhau projectau erbyn diwedd mis Mawrth.

**Adfer tir a natur**

61. Ym mis Hydref 2023, ariannodd grant o £10,000 gan Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru 1,250 metr llinellol o ffensys ar hyd afon Elái ar dir pori a brydleswyd gan Ystad Plymouth.

62. Byddai'r ffensys yn atal da byw rhag mynd i'r afon, gan ganiatáu aildyfiant naturiol y tu ôl i'r ffensys; byddai gwreiddiau'r llystyfiant yn helpu i ddiogelu glan yr afon rhag erydiad a darparu cynefin i wella bioamrywiaeth yr afon.

63. Ym mis Chwefror 2024, cynhaliwyd cyfarfod gydag Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru a'r asiantau tir ar gyfer Ystad Plymouth i edrych ar grantiau pellach i ariannu plannu coed mewn dau le ar afon Elái a oedd yn anhygyrch ar gyfer pori. Roedd y cyfarfod yn llwyddiannus, a bwriadwyd plannu'r coed gyda gwirfoddolwyr yn ystod hydref 2024.

**Ymgysylltu â staff a gwirfoddolwyr**

64. Roedd hyfforddiant Llythrennedd Carbon wedi ailddechrau ym mis Chwefror a mis Mawrth. Roedd 418 o staff wedi cymryd rhan mewn o leiaf un rhan o'r hyfforddiant ac roedd 333 o staff bellach wedi cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus.

**Ffyrdd o weithio**

65. Parhaodd ymdrechion sylweddol i ganolbwyntio ar adolygu polisi ac arferion yn y meysydd canlynol:

- Seren
- Cronfa Cynllun Pensiwn
- Teithio Busnes Cynaliadwy
- Caffael a'r Economi Gylchol
- Rhaglen ac Adolygiad Rheoli Gwastraff
- Cydweithio ac Ymchwil
- Datgarboneiddio Digidol
- Recriwtio

66. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.**

**Eitem 13. Ailddatblygu Llanberis – Adroddiad Cynnydd**
Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth

67. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r gweithgarwch allweddol ar broject Ailddatblygu Llanberis rhwng Ionawr a Chwefror 2024.

68. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth fod y bwrdd project wedi cymeradwyo'r pwyntiau canlynol ym mis Ionawr 2024:

- Cynlluniau'r Swyddfa Pensaernïaeth Wledig
- Cynllun Project Atkins Realis
- Strwythur Llywodraethu Diwygiedig
- Yr ymagwedd a ffefrir at gaffael contractwyr cyfalaf

- Cynnig storio oddi ar y safle

69. Roedd yr achos busnes amlinellol wedi hen ddechrau a byddai’n cael ei gwblhau ym mis Mawrth 2024. Roedd y Llyfr Gwyrdd yn cael ei ddilyn ac roedd y gweithdai gofynnol (3, 4 a 5) i gyd wedi’u cwblhau yn ystod Chwefror 2024.

70. Roedd yr holl waith yr oedd ei angen ar Amgueddfa Cymru wedi'i gwblhau ar gyfer y cais am estyniad i gyllid y Gronfa Ffyniant Bro. Roedd y cyfarwyddwr yn falch o gadarnhau, ers y diweddariad a ddarparwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau, fod Cyngor Gwynedd bellach wedi cadarnhau bod yr estyniad ar gyfer cyllid y Gronfa Ffyniant Bro wedi’i sicrhau hyd at fis Mawrth 2026.

71. Roedd y cais am arian o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi’i gyflwyno ac roedd disgwyl ateb erbyn diwedd mis Mawrth 2024. Roedd yr arian hwn yn hanfodol er mwyn i'r opsiwn a ffefrir weithio.

72. Mae cynllun cyfathrebu wedi'i roi ar waith a chyfarfodydd wedi'u cynnal gyda staff a thenantiaid safle Parc Padarn. Roedd hyn wedi dechrau’r drafodaeth ynghylch y posibilrwydd o gau’r safle (4 Tachwedd 2024) a’r goblygiadau o wneud hynny.

73. Roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda Chyngor Gwynedd i sicrhau bod yr Amgueddfa yn gweithio'n agos gyda phrojectau eraill ym Mharc Padarn a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Bro.

74. Roedd y cyfarwyddwr hefyd yn falch o gadarnhau bod cyllid wedi'i gadarnhau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prynu Offis Fawr, a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2023. Nodwyd bod pob ymddiriedolwr wedi arwyddo penderfyniad ysgrifenedig i gadarnhau eu cytundeb ar y pryniant.

75. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.**

**Eitem 14. Diweddariad ar yr Oriel Celf Gyfoes**
Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

76. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil ddiweddariad i'r bwrdd ar Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru.

77. Cadarnhaodd y cyfarwyddwr y bu cynnydd cyflym o ran datblygu busnes a blaengynllunio. Yn dilyn sgôr oren/gwyrdd ar gyfer yr Adolygiad Sicrwydd ym mis Rhagfyr, anfonwyd llythyr Dyfarnu Cyllid gan Lywodraeth Cymru at

Gyngor Celfyddydau Cymru, fel y partner ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru sy'n dal y gronfa.

78. Yn dilyn canlyniad llwyddiannus Gateway III, roedd cyhoeddiad i'r wasg wedi'i gyhoeddi. Cyhoeddodd y datganiad y cyllid cyfalaf i'r naw oriel bartner yn ogystal â phwyntio at yr arddangosfa gyntaf i agor o dan faner Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru, sef *Teulu* yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth.

79. O ran datblygiad cyfalaf, mae cwmni rheoli project, Greenwood, a chydlynydd project penodedig bellach ar waith i gefnogi'r orielau, ynghyd â chyfarwyddwr project i gyflawni datblygiadau cyfalaf a oedd yn amrywio o ran maint a chymhlethdod. Mae cyfran o fuddsoddiad wedi'i dyrannu i'w gwario cyn diwedd mis Mawrth 2024, a'r gweddill erbyn diwedd mis Mawrth 2025. Roedd partneriaid oriel dan bwysau sylweddol ac yn gweithio'n galed i wireddu cynllunio a chaffael o fewn yr amserlen.

80. Amlygodd y cyfarwyddwr ei bod yn parhau i fod yn risg na fyddai pob oriel yn gallu gwario'r dyraniadau cyfalaf yn llawn cyn diwedd y flwyddyn. Ni allai unrhyw ddyfarniad heb ei wario gael ei gario drosodd i'r flwyddyn ganlynol a byddai'n cael ei golli.

**Uchafbwyntiau Rhaglennu**

81. Agorodd arddangosfa gyntaf Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru ar 2 Mawrth yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Roedd yr arddangosfa yn ganlyniad i broject cyfranogol o'r enw *Teulu*. Roedd teuluoedd o ardal Aberystwyth wedi ymweld â chasgliad cenedlaethol Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac wedi mwynhau sgyrsiau a'r gweithdai gyda chydweithwyr ar draws adrannau.

82. Mae ail arddangosfa yn agor 22 Mawrth yn Oriel Gelf Glynn Vivian, ac roedd 15 gwaith cyfoes yn cael eu benthyca o gasgliad Amgueddfa Cymru ar ei chyfer. Roedd y rhain i gyd yn weithiau gan artistiaid a oedd yn flaenorol wedi ennill Gwobr Peter Wakelin.

83. Cytunwyd ar raglen o gomisiynau artistiaid ar draws yr 11 partner darparu. Roedd y rhaglen yn cefnogi pob partner i gomisiynu artistiaid yn lleol iddynt i greu gwaith newydd. Mae'r comisiynau yn gofyn i artistiaid naill ai i ymateb i weithiau penodol neu i arferion artistiaid penodol a gynrychiolir yn y casgliad cenedlaethol neu i ystyried beth mae'r casgliad cenedlaethol yn ei olygu iddyn nhw neu i'w cymunedau.

84. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi diweddariadau i'r Bwrdd ar adroddiad digideiddio Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru, ystadegau gwefan Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru / Celf ar y Cyd, a chynnydd.

85. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.**

Eitem 15. Diweddariad ar **yr Adolygiad wedi'i Deilwra**
Noddwr a Chyflwynydd: Peter Holt, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a Mark Petherick, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol

86. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar gynnydd yr Amgueddfa yn erbyn y 77 o argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad ar yr Adolygiad wedi'i Deilwra, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023.

87. Croesawyd yr adroddiad yn gynnes gan Lywodraeth Cymru ac Amgueddfa Cymru, ac roedd wedi'i adolygu'n agos gan Archwilio Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, a'r Comisiwn Elusennau.

88. Defnyddiodd Amgueddfa Cymru ddull rhaglen i adolygu, asesu a gweithredu'r 77 o argymhellion, gan nodi cyfarwyddwyr fel arweinwyr ar gyfer adrannau diffiniedig.

89. Nododd cyfarfodydd diweddaraf y grŵp gorchwyl a gorffen (14 Rhagfyr a 4 Mawrth) fod 20 o argymhellion wedi'u cwblhau ac 20 arall yn gweithio tuag at gyflawnrwydd.

90. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi'r diweddariad ar y cynnydd a chymeradwyo'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion llywodraethu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad wedi'i Deilwra a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2024, a oedd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad.

91. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr:**

**(1) B O D y diweddariad yn cael ei nodi a'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion llywodraethu yn cael ei gymeradwyo.**

**(2) B O D yr ymddiriedolwr John Hunt yn cael ei benodi yn Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Amgueddfa Cymru.**

**Eitem 16. Ailstrwythuro Pwyllgorau'r Bwrdd**
Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

92. Yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2024, trafododd panel yr Adolygiad wedi'i Deilwra gynnydd yn erbyn argymhellion yr Adolygiad wedi'i Deilwra o ran llywodraethu. Roedd argymhelliad #20 yr adolygiad yn nodi:

**Argymhelliad #20** – *bod y bwrdd yn adolygu strwythur ei bwyllgorau gan ystyried ein cyngor. Yn benodol, rydym yn argymell creu pwyllgor cyllid i*

*ddisodli'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau, pwyllgor pobl, pwyllgor seilwaith, a phwyllgor addysg ac allgymorth, penodi cadeirydd annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a disodli'r Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaeth Ariannol gan bwyllgorau enwebu a chydnabyddiaeth ariannol ar wahân, gyda'r pwyllgor enwebiadau, ond nid y pwyllgor cydnabyddiaeth ariannol, dan gadeiryddiaeth cadeirydd yr ymddiriedolwyr.*

93. Yn y cyfarfod, rhannodd y Cadeirydd strwythur pwyllgor newydd arfaethedig. Eglurodd fod cyngor yr Adolygiad wedi'i Deilwra wedi'i gymryd i ystyriaeth ynghyd â thrafodaethau gyda'r Prif Swyddog Gweithredol, SET, Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad wedi'i Deilwra, y Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaeth Ariannol, ac ymddiriedolwyr unigol.

94. Y bwriad y tu ôl i'r cynnig i ailstrwythuro'r pwyllgorau oedd rhoi mwy o eglurder i is-strwythur llywodraethu'r Bwrdd, er mwyn gwella a chryfhau llywodraethu a darparu gwell goruchwyliaeth a chraffu trwy ystod ehangach o bwyllgorau fel bod ymddiriedolwyr yn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n well a chael golwg ar ehangder llawn gweithgareddau'r sefydliad. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys o dan y strwythur pwyllgorau presennol ar hyn o bryd.

95. Roedd y strwythur arfaethedig sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad wedi'i gasglu at ei gilydd yn dilyn yr holl drafodaethau hyn ac ymgynghoriadau pellach gyda'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Gweithredol a'r Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaeth Ariannol.

**Pwyllgorau Sefydlog**

96. Mae'r meysydd o dan bob Pwyllgor Sefydlog arfaethedig yn Atodiad A yn ddangosol ac nid yn hollgynhwysfawr.Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar beth yn union sy'n cael ei gynnwys o dan bob pwyllgor a bydd hyn yn cael ei roi o flaen y Bwrdd fel rhan o gylch gorchwyl pob pwyllgor, ynghyd â'u cyfansoddiad, aelodaeth (gan gynnwys aelodaeth allanol gyfetholedig), ac amlder cyfarfodydd. Bydd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn cael ei adolygu fel rhan o hyn a'i gyflwyno i'r Bwrdd os gofynnir am adolygiadau.

97. Ochr yn ochr â hyn, bydd angen rhoi ystyriaeth i'r materion hynny a gadwyd yn ôl i'r Bwrdd yng nghyd-destun y rhai a gyfeirir at bwyllgorau i sicrhau llywodraethu priodol.

98. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r egwyddor o sefydlu'r canlynol: Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad; Pwyllgor Seilwaith; Pwyllgor Dysgu ac Ehangu Ymgysylltu; Pwyllgor Pobl a Diwylliant; Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol; a pharhad y Pwyllgor Archwilio a Risg.

**Grwpiau Cynghori**

99. Hefyd gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r newid i'r Grwpiau Cynghori sy'n cefnogi'r Bwrdd.Nid oedd y Grŵp Cynghori ar y Celfyddydau a'r Grwpiau Cynghori ar Ddatblygu wedi bod yn weithredol ers cryn dipyn o amser. Mewn ymgynghoriad â SET, cynigiwyd bod Grŵp Cynghori ar Gasgliadau yn disodli'r Grŵp Cynghori ar y Celfyddydau, a allai roi gwell cyngor ar draws holl gasgliadau Amgueddfa Cymru.

100. Cynigiwyd bod y Grŵp Cynghori ar Ddatblygu yn cael ei ddiddymu o ystyried y llawer mwy o oruchwyliaeth a chraffu y byddai'r maes hwn yn eu cael yn awr o dan strwythur arfaethedig y Pwyllgorau Sefydlog.

101. Cynigir bod y Grŵp Cynghori ar Ymchwil yn parhau.

102. Byddai cylch gorchwyl y Grŵp Cynghori ar Gasgliadau newydd yn dod yn ôl at y Bwrdd ar gyfer mewnbwn a chymeradwyaeth.

**Grwpiau Gorchwyl a Gorffen**

103. Argymhellir bod Grŵp Llywio Mewnol Llanberis angen adolygiad o'i gylch gorchwyl bellach i sicrhau ei fod wedi'i sefydlu'n briodol ar gyfer y cam newydd hwn o broject ailddatblygu Llanberis. Byddai hyn yn dod yn ôl at y Bwrdd pe bai'r grŵp hwnnw'n argymell diwygiadau.

104. Byddai Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad wedi'i Deilwra yn parhau.

**Is-bwyllgorau**

105. Yn olaf, nodwyd nad oedd adolygiad o'r is-bwyllgorau wedi'i gynnwys yn yr ymarfer hwn, ond y dylid cynnal adolygiad yn ystod 2024/25 i sicrhau bod pob cylch gorchwyl yn cael ei ddiweddaru. Byddai'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr amseriad arfaethedig ar gyfer hyn.

106. Ar ôl ystyried yr adroddiad a thrafod fformat y strwythur pwyllgorau arfaethedig,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr:**

**(1) B O D penawdau arfaethedig strwythur pwyllgorau'r Bwrdd yn cael eu cymeradwyo i hwyluso gwaith i symud i'r strwythur pwyllgorau newydd.**

**(2) B O D y cylch gorchwyl yn dod yn ôl i'r Bwrdd i'w gymeradwyo.**

**Eitem 17. Polisïau Achredu**
Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

107. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil y byddai Amgueddfa Cymru yn cyflwyno cais i adnewyddu ei Hachrediad Amgueddfa ym mis Mehefin 2024.

108. Roedd Cynllun Achredu Amgueddfeydd y DU yn set o safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol i sicrhau bod pob amgueddfa'n helpu pobl i gael

mynediad at gasgliadau ac ymgysylltu â nhw ac i sicrhau bod y casgliadau hynny'n cael eu gofalu amdanynt a'u rheoli mewn ffordd gyfrifol.

109. Mae yna hefyd ofynion safonol yn ymwneud â llywodraethu a rheoli. Roedd tîm trawsddisgyblaethol wedi bod yn gweithio ar adolygu a diweddaru'r polisïau casgliadau perthnasol ers mis Ionawr ac roedd angen i'r gyfres isod o bolisïau diwygiedig bellach gael eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

- Polisi Datblygu Casgliadau
- Polisi Rheoli Casgliadau
- Mynediad at a Defnydd o Gasgliadau
- Gwybodaeth am Gasgliadau
- Gofalu am a Chadwraeth Casgliadau
- Polisi Benthyciadau Allanol ·Polisi Benthyciadau Mewnol

110. Cytunodd ymddiriedolwr FS i roi adborth i'r cyfarwyddwr ar rai meysydd o'r polisïau achredu.

111. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D y Polisïau Achredu yn cael eu cymeradwyo.**

**Eitem 18.Cofnodion Adolygu**
Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

112. Adolygwyd cofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2023 a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

113. Ni chymerwyd unrhyw gamau gweithredu pellach.

**PENDERFYNWYD: B O D cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2023 yn cael eu cymeradwyo.**

**Eitem 19.Adolygu'r Cofnod Camau Gweithredu Agored**
Noddwr a Chyflwynydd: Mark Petherick, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol

114. Cadarnhaodd y Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol fod gwaith yn mynd rhagddo yn erbyn y cam gweithredu isod.

115. **Eitem 10. Adroddiad Blynyddol Perchnogion a Gweithredwyr Big Pit – B O D** sesiwn Hyfforddi Perchnogion a Gweithredwyr yn cael ei threfnu i ymddiriedolwyr ar y safle yn ystod mis Mai 2024.

116. Cadarnhaodd y Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol fod yr holl gamau gweithredu eraill o'r cyfarfod wedi'u cwblhau.

**PENDERFYNWYD – B O D y diweddariad o'r cofnod gweithredu agored yn cael ei nodi.**

**Eitem 20.Cofnodion Pwyllgorau Sefydlog**
Noddwr a Chyflwynydd: Mark Petherick, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol

**Eitem 20.1. Cofnodion y Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaeth Ariannol – 14 Medi 2023**

117. Ar ôl ystyried y cofnodion,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D y cofnodion yn cael eu nodi.**

**Eitem 20.2. Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg – 15 Tachwedd 2023**

118. Ar ôl ystyried y cofnodion,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D y cofnodion yn cael eu nodi.**

**Eitem 20.3. Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau – 16 Tachwedd 2023**

119. Ar ôl ystyried y cofnodion,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D y cofnodion yn cael eu nodi.**

**Eitem 20.4. Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg – 24 Ionawr 2024**

120. Ar ôl ystyried y cofnodion,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D y cofnodion yn cael eu nodi.**

**Eitem 20.5. Y Cyd-bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau – 24 Ionawr 2024**

121. Ar ôl ystyried y cofnodion,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D y cofnodion yn cael eu nodi.**

**Eitem 21. Cofnodion y Pwyllgor Cynghori**
Noddwr a Chyflwynydd: Mark Petherick, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol

**Eitem 21.1. Pwyllgor Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad wedi'i Deilwra – 20 Tachwedd 2023**

122. Ar ôl ystyried y cofnodion,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D y cofnodion yn cael eu nodi.**

**Eitem 22. Sesiynau Briffio o'r Sesiynau Bwrdd Caeedig**
Noddwr a Chyflwynydd: Mark Petherick, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol

**1 Chwefror 2024 Cyfarfod Bwrdd Caeedig**

123. Cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2024 i drafod materion cyfrinachol yn ymwneud â sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

**7 Chwefror 2024 Cyfarfod Bwrdd Caeedig**

124. Cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2024 i drafod materion cyfrinachol yn ymwneud â Llunio ein Ffrydiau Gwaith yn y Dyfodol a Sefyllfa Ariannol yr Amgueddfa, ac i fynd ar drywydd sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

125. Ar ôl ystyried y cofnodion,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D cofnodion cyfarfodydd bwrdd caeedig 1 Chwefror a 7 Chwefror yn cael eu nodi.**

**Eitem 23. Unrhyw Fater Arall**

**Eitem 23.1. Cylch Cyflog**
Noddwr a Chyflwynydd: Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol

126. Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ym Mawrth 2024

Penderfynwyd cymeradwyo'r cynnig cyflog ar gyfer lleihau oriau gwaith a'i rannu gyda'r Bwrdd er gwybodaeth.

127. Cymeradwyodd y Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaeth Ariannol y canlynol:

- Cyflwyno cynnig o un taliad o £1,000 wrth ildio dwy awr gontractiol
- Newid y polisi absenoldeb hyblyg i gynyddu gwyliau hanner diwrnod i dau ddiwrnod y mis
- Lleihau oriau contract graddau cyflog A a B a mabwysiadu gweithio ar y penwythnos drwy dalu £1,000 am y ddwy awr gyntaf a 15 x nifer yr oriau wedi'u lleihau x tâl fesul awr am unrhyw oriau ychwanegol wedi'u lleihau

128. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.**

**Eitem 23.2. Cyfarwyddwr Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf**
Noddwr a Chyflwynydd: Mark Petherick, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol

129. Roedd yr adroddiad yn argymell i'r Bwrdd y dylid penodi Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Dysgu ac Ymgysylltu, yn gyfarwyddwr newydd Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf.

130. Yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2024, enwebodd y Bwrdd Menter Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Dysgu ac Ymgysylltu, i ddod yn gyfarwyddwr newydd Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf.

131. Byddai Nia Williams yn cymryd lle Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth.

132. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

**PENDERFYNWYD gan yr ymddiriedolwyr: B O D Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Dysgu ac Ymgysylltu, yn cael ei phenodi'n gyfarwyddwr newydd Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf.**

133. Nid adroddwyd am unrhyw fater arall.

Cyfarfod yn cau